CABINET
COFNOD PENDERFYNIADAU

DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024

DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Manually Type Call in Date
Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:

Cynghorwyr Sir Mary Ann Brocklesby, Paul Griffiths, Martyn Groucutt, Catrin Maby, Angela Sandles, Ian Chandler and Ben Callard

AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:

Cynghorwyr Sir

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Jonathan Davies, Peter Davies, Will Mclean, Jane Rodgers, Frances O'Brien, Ian Saunders, Adam Fall and James Williams

Eitem Rhif	Title	Diben, Ymgynghoriad ac Awdur	Datganiad Diddordeb	Decision
4	Diweddariad Ariannol	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod: 2.1 Gwarged net yn y gyllideb refeniw ar alldro o £1,701,000 (0.8% o'r gyllideb) sy'n golygu bod angen tynnu llai o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb na'r hyn a gyllidebwyd. 2.2 Bod y gwarged a gyflawnwyd ar alldro yn welliant sylweddol o ychydig dros £2m o'r rhagolygon sefyllfa ym mis 9. Mae'r gwelliant yn bennaf o ganlyniad i welliant yn y sefyllfa cyllidebau gwasanaethau, a ysgogwyd gan y camau adfer cyllideb a weithredwyd gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyfyngiadau swyddi gwag staff, ynghyd â gwella costau cyllido cyfalaf wrth i feysydd o'r rhaglen gyfalaf wynebu oedi. 2.3 Mae ardaloedd sylweddol o bwysau cost o fewn gofal cymdeithasol i oedolion o hyd, anghenion dysgu ychwanegol Plant, Gwastraff, a digartrefedd/tai. Cofnododd y gwasanaethau hyn wariant cronnus o £5m ar gyfer y flwyddyn, ac er bod agwedd sylweddol ar y pwysau cost hyn wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2024/25, mae hyn yn parhau i gyflwyno maes parhaus o risg ariannol i'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol newydd. 2.4 Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn oedd £65,176,000, heb unrhyw gynlluniau cyfalaf yn adrodd am orwariant neu danwariant sylweddol sy'n gofyn am gyllid ychwanegol o adnoddau'r Cyngor ei hun. Cyfanswm ceisiadau llithriant cyfalaf oedd £28,606,000. 2.5 Y gostyngiad sylweddol mewn balansau Ysgolion yn ystod y flwyddyn o £5,161,000 fel yr amlinellir yn ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 3***, sy'n mynd â balansau cronnus ysgolion i ddiffyg o £905,000. Daeth 13 o ysgolion i ddiwedd y flwyddyn gyda balansau mewn diffyg, gyda nifer o ysgolion yn parhau i gario diffygion cyllidebol strwythurol y bydd angen mynd i'r afael

				â nhw trwy gamau adfer cyllideb. 2.6 Y pwysau cost dangosol cynnar o £873,000 a amlygwyd gan wasanaethau yn erbyn cyllideb refeniw 2024/25, sy'n gofyn am gamau lliniaru cyflym gan wasanaethau er mwyn cyflawni sefyllfa alldro cytbwys o leiaf erbyn diwedd y flwyddyn.
Gwybodaeth ychwanegol:				
5	Siarter Rhianta Corfforaethol	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r Siarter Rhianta Corfforaethol.
Gwybodaeth ychwanegol:				
6	Datblygu Cartref Preswyl i Blant	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Achos Busnes i Wasanaethau Plant ymrwymo i gytundeb lesddaliad wedi'i adnewyddu gyda sefydliad Pobl ar eiddo yng Nghil-y-coed am o leiaf 10 mlynedd (yn unol ag amodau'r grant) at ddibenion darparu cartref preswyl mewnol i blant.
Gwybodaeth ychwanegol:				
7	System Rheoli Achosion Gofal Cymdeithasol Newydd	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: PENDERFYNWYD: 1. Bod y Cabinet yn cytuno i weithio ar lefel ranbarthol i brynu System Rheoli Achosion Gofal Cymdeithasol 'barod-i-fynd' o dan y rhaglen genedlaethol (opsiwn 2). 2. Mae'r Cabinet felly yn cytuno i'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, ynghyd â'r Prif Swyddog Adnoddau/Dirprwy Brif Weithredwr i wneud y canlynol: - Gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill Gwent ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i fynd i mewn i broses gaffael ar gyfer System Rheoli Achosion Gofal Cymdeithasol ar gyfer y rhanbarth. - Gweithio ar y cyd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddatblygu cynllun rhaglen i sicrhau bod y system newydd yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus, gan hefyd leihau'r risg a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. 3. I nodi: - Ar hyn o bryd, mae'r costau refeniw untro a blynyddol sy'n gysylltiedig â chaffael system amnewid ond yn amcangyfrifon ar hyn o bryd. - Mae Achos Busnes cenedlaethol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a fydd yn nodi'r gofynion rhesymeg ac adnoddau ar gyfer disodli System Rheoli Achosion Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. - Mae yna frys i fwrw ymlaen â disodli'r System Rheoli Achosion Gofal Cymdeithasol, er gwaethaf yr anhysbysion presennol. 4.Os na fydd cyllid allanol yn talu'r holl gostau gweithredu untro, cymeradwyodd y Cabinet y gwarantu o uchafswm o £291,000 o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, wedi'u rhannu dros 2024/25 a 2025/26. 5. Os na fydd cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru yn talu'r holl gostau refeniw untro a pharhaus, bydd adroddiad penderfynu pellach yn cael ei

				gyflwyno i'r Cabinet cyn y contractio, yn unol â'r amserlen gaffael.
Gwybodaeth ychwanegol:				
8	Strategaeth Ddigidol a Data	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: 1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo gweledigaeth, themâu a nodau'r Strategaeth Ddigidol a Data. 2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun cyflawni ac i nodi y bydd achosion busnes ar gyfer buddsoddi pellach ac yn y dyfodol yn cael eu paratoi i'w hystyried yn ôl y gofyn, ac i'r graddau na ellir eu rheoli o fewn fframwaith cyllidebol, capasiti ac adnoddau presennol y Cyngor. 3. Bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Swyddog - Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd fel yr aelod Cabinet arweiniol sydd â chyfrifoldeb portffolio, i oruchwylio gweithrediad a monitro'r strategaeth.
Gwybodaeth ychwanegol:				
		Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD:
Gwybodaeth ychwanegol:				